# Cyngor Cymuned Llandegla

Mae swydd wag wedi codi ar gyfer **CLERC RHAN-AMSER I'R CYNGOR** a **SWYDDOG ARIANOL CYFRIFOL**
**Graddfa Cyflog:** LC2 pwyntiau 21–28
(£32,115 – £37,938 pro rata; 37 awr yr wythnos cyfwerth ag amser llawn)
**Oriau:** Rhan-amser – 20 awr y mis (i gynnwys rhai cyfarfodydd gyda'r nos a gwaith hybrid)

Mae Cyngor Cymuned Llandegla yn gorff etholedig sy'n cynnwys 9 cynghorydd o bob cefndir sy'n gweithio'n ddiflino ac yn wirfoddol er budd a lles y bobl maen nhw'n eu cynrychioli. Mae'r Cyngor yn cyfarfod ar nos Iau cyntaf y mis am 7.00 p.m. yn Neuadd y Pentref. Mae'r cynghorydd sir lleol hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd, lle mae'r Cyngor yn trafod pynciau amrywiol megis ffyrdd, llwybrau troed, adeiladau, ac yn rhoi barn a sylwadau ar geisiadau cynllunio cyn iddynt fynd gerbron y Cyngor Sir llawn. Mae'r praesept blynyddol tua £10,446.00.

Mae'r Cyngor yn dymuno penodi Clerc arloesol i'r Cyngor, gyda'r profiad priodol, i gymryd cyfrifoldeb dros bob agwedd gyfreithiol ac ariannol o reolaeth a swyddogaethau'r Cyngor. Mae rhywfaint o wybodaeth o'r Gymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol.

Mae'r Cyngor yn chwilio am unigolyn brwdfrydig a threfnus, gyda sgiliau rhyngbersonol da a sgiliau TG. Bydd y Clerc i'r Cyngor yn Swyddog Priodol y Cyngor ac, fel y cyfryw, bydd ganddo ddyletswydd statudol i gynnal pob un o swyddogaethau'r Swyddog Priodol a chyhoeddi hysbysiadau yn ôl y gyfraith.

Bydd yr unigolyn a benodir yn atebol i'r Cyngor am reoli'r holl adnoddau'n effeithiol, gan gynnwys Cae Mair, diweddaru gwefan y Cyngor, cynhyrchu cofnodion cywir ac amserol o gyfarfodydd, diweddaru byrddau hysbysu lleol, a sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Yn ddelfrydol, bydd gan ymgeiswyr wybodaeth gadarn am ddeddfwriaeth, cyllid a gweithdrefnau llywodraeth leol. Dylai'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar y Dystysgrif mewn Gweinyddu Cynghorau Lleol (CiLCA), neu fod yn barod i weithio tuag at ei chael o fewn 3 mis i'w benodi.

**I wneud cais**, anfonwch eich CV gyda llythyr eglurhaol at y Cadeirydd, y Cynghorydd Gwyneth Dillon drwy anfon e-bost i:**gwynethdillon@llandeglacc.co.uk**

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch â'r Cadeirydd:
**Cynghorydd Gwyneth Dillon** ar **gwynethdillon@llandeglacc.co.uk**

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:** Dydd Llun 30 Mehefin 2025
**Cynhelir y cyfweliadau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 7 Gorffennaf 2025**

**Mae Cyngor Cymuned Llandegla yn gyflogwr sy'n rhoi cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bawb, ni waeth beth fo oedran, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, hil na anabledd.**